



Canolradd (De)

Chwarae'r Gêm - Act 4



(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 6.)

Yn ôl yng Nghaerddinas. Mae Gwyn Thomas, rheolwr Caerddinas, yn edrych ar fideo'r gêm yn Ystafell y Rheolwr yn y clwb. Mae Megan ei wraig yn dod i mewn.

- Megan: Edrych ar y fideo rwyf ti?
- Gwyn: Ie. Tair gôl i un. Dw i ddim yn deall.
- Megan: Wedi blino roedd y bechgyn?
- Gwyn: Nage.
- Megan: Y gwres oedd y broblem?
- Gwyn: Nage. Mae rhywbeth arall. Ddoe ges i fy ngeni? Nage.
- Megan: Pryd mae'r ymarfer?
- Gwyn: Am saith...ymhen chwarter awr. Dw i'n clywed sŵn car nawr. Pwy sy 'na? Derbyshire?
- Megan: Nage. Dw i ddim yn nabod y car.
- Gwyn: Car glas yw e?
- Megan: Nage. Car coch Alfa Romeo.
- Gwyn: Alfa Romeo?
- Megan: Derbyshire sy'n dod ma's.
- Gwyn: Car newydd, mae'n rhaid.

Megan: Mae'r lleill yn dod nawr ...DerbyshireGriffiths... Michael JonesMedwin Hughes... ac mae dyn arall.

Gwyn: (Yn dal i edrych ar y fideo) Mae'n rhyfedd on'd yw e?

Megan: Beth, cariad?

Gwyn: Edrycha ar y fideo . Griffiths sy â'r bêl... Mae'n pasio i Howells ond mae Howells yn baglu ac yn colli'r bêl. Edrycha eto yma. Griffiths sy â'r bêl... Mae'n pasio i Howells ond mae Howells yn baglu ac yn colli'r bêl. Mae patrwm.

Megan: Mae'r dyn 'na yn dod i fyni i'r swyddfa.

Mae cnoc ar y drws.

Gwyn: Dewch i mewn!

Larry Day: Larry Day, newyddiadurwr.

Gwyn: Chi sy'n gweithio i'r Weekly Herald?

Larry Day: Ie.

Gwyn: Eisiau stori dych chi?

Larry Day: Nage. Mae stori gyda fi, Mr Thomas. Dw i eisiau gweithio gyda chi i ddatblygu stori well!

Geirfa

Newyddiadurwr – journalist

Datblygu – to develop

Y lleill – the others